

Cyngor Bwrdeistref Sirol



Bodlondeb, Conwy LL32 8DU

Budd-dal Tai

Ffôn: 01492 576491

Ffacs: 01492 576260



## Taflen am apeliadau

# Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod eich Budd-dal Tai yn anghywir

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybod i chi sut y gallwch:

- ofyn i ni esbonio ein penderfyniad;
- herio ein penderfyniad; ac
- apelio yn erbyn ein penderfyniad.

## Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod ein penderfyniad am eich Budd-dal Tai yn anghywir

Os ydych chi wedi cael penderfyniad am eich Budd-dal Tai, a'ch bod yn meddwl ei fod yn anghywir, bydd angen i chi wybod beth i'w wneud am y peth.

Os ydych chi'n meddwl bod y penderfyniad yn anghywir, gallwch ofyn i ni ei esbonio i chi. Os ydych chi'n dal i feddwl ei fod yn anghywir ar ôl i ni ei esbonio i chi, fe wnawn ni ail-edrych arno.

Yn achos rhai penderfyniadau, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol all newid y penderfyniad os ydyn nhw'n cytuno ei fod yn anghywir.

Os ydych chi eisiau i ni ail-edrych ar benderfyniad neu os ydych chi eisiau apelio, rhaid i chi gadw at derfynau amser penodol. Fe ddywedwn ni wrthyddych chi am y terfynau amser hyn yn y daflen hon.

## Beth i'w wneud

- 1 Ydych chi eisiau i ni esbonio ein penderfyniad?

Trowch at dudalen 3.

- 2 Ydych chi eisiau i ni ail-edrych ar ein penderfyniad? Trowch at dudalen 4.

- 3 Ydych chi eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad?

Trowch at dudalen 5.

- 4 Ydych chi eisiau gwybod beth i'w wneud ar ôl i chi apelio?

Trowch at dudalen 7.

- 5 Ydych chi eisiau gwybod beth i'w wneud os nad ydych chi'n cytuno â chanlyniad yr apêl?

Trowch at dudalen 9.

- 6 Ydych chi angen cymorth gyda'ch apêl ac eisiau gwybodaeth am sefydliadau eraill allai'ch helpu?

Trowch at dudalen 10.

## Y penderfyniad

Os cewch chi lythyr gennym ni yn nodi ein penderfyniad am eich Budd-dal Tai, gallwch ofyn i ni ail-edrych arno. Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad, efallai y gallech chi apelio i dribiwnlys annibynnol. Fe rown ni wybod i chi os gallwch chi apelio yn y llythyr y byddwn yn ei anfon yn nodi ein penderfyniad.

- Fel arfer, fe gewch chi lythyr yn nodi ein penderfyniad am y rhesymau canlynol:
  - rydych chi wedi hawlio Budd-dal Tai;
  - mae eich amgylchiadau wedi newid ac mae hyn yn cael effaith ar eich budd-dal; neu
  - rydym wedi dweud wrthyfch bod rhaid i chi ad-dalu'ch budd-dal.
- Efallai y gallech chi ofyn i ni ail-edrych ar ein penderfyniad neu apelio yn ei erbyn. Mae rheolau arbennig yn berthnasol os nad ydych chi'n hawlio'r budd-dal eich hun. Er enghraifft, os ydych chi'n landlord a'n bod ni'n ceisio penderfynu p'un ai i dalu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i chi ai peidio, neu os ydych chi'n landlord a'n bod ni'n penderfynu gofyn i chi ein had-dalu ar ôl i ni dalu gormod o Fudd-dal Tai i chi.
- Os ydych chi'n 'benodai' ar gyfer person arall (rhywun sy'n gweithredu ar ran person na all weithredu ar eu rhan eu hunain), gallwch ofyn i ni ail-edrych ar benderfyniad am eu budd-dal ac efallai y gallech chi apelio ar eu rhan. Fe rown ni wybod i chi os gallwch chi apelio yn y llythyr y byddwn yn ei anfon yn nodi ein penderfyniad.

## Ydych chi eisiau i ni esbonio ein penderfyniad?

Byddwch wedi cael llythyr yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad am eich Budd-dal Tai. Os hoffech chi ragor o wybodaeth am y penderfyniad hwnnw, cysylltwch â ni ar unwaith.

Rhaid i chi wneud hyn ar unwaith. Os ydych chi eisiau i ni ail-edrych ar y penderfyniad, neu os ydych chi eisiau apelio yn ei erbyn, rhaid i chi wneud hynny o fewn **un mis calendr (mis llawn yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, nid y dyddiad y byddwch chi'n cysylltu â ni. Gallwch ein ffonio, ysgrifennu atom neu ddod i'n gweld.

Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni, gallwch wneud un o'r canlynol:

- Gofyn i ni esbonio pam ein bod wedi gwneud y penderfyniad.
- Neu, os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud, gofynnwch i ni am 'datganiad o'r rhesymau' am y penderfyniad, os nad ydym ni eisoes wedi anfon un i chi. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **un mis calendr (mis llawn yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad. Byddwn yn anfon y 'datganiad o'r rhesymau' i chi cyn gynted ag y gallwn.
- Os ydych chi'n dal i anghytuno â'r penderfyniad, gallwch:
  - ofyn i ni edrych arno eto (trowch at dudalen 4); neu
  - apelio yn erbyn y penderfyniad (trowch at dudalen 5).

- Os gofynnwch chi i ni am ‘ddatganiad o'r rhesymau’ ar bapur, byddwn yn ychwanegu'r amser y mae'n ei gymryd i ni ei anfon atoch chi at yr **un mis calendr (mis llawn yn hytrach na 4 wythnos)** sydd gennych chi'n barod. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i chi ofyn i ni ail-edrych ar y penderfyniad neu apelio yn ei erbyn.

## Ydych chi eisiau i ni ail-edrych ar ein penderfyniad?

Gallwch ofyn i ni wneud hyn os ydym ni wedi esbonio'n penderfyniad i chi neu wedi anfon ‘datganiad o'r rhesymau’ atoch chi i esbonio'r penderfyniad, a'ch bod yn dal i feddwl ei fod yn anghywir.

- O fewn **un mis calendr** i dderbyn ein llythyr penderfyniad, rhowch wybod i ni eich bod eisiau i ni ail-edrych ar ein penderfyniad. Os gofynnwch chi i ni esbonio'n gyntaf, byddwn yn dal i gyfrif yr **un mis calendr** o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad. Os gofynnwch chi i ni am ‘ddatganiad o'r rhesymau’ ar bapur, bydd yr **un mis calendr** yn cychwyn o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, ond byddwn yn ychwanegu'r amser y mae'n ei gymryd i ni anfon y ‘datganiad o'r rhesymau’ atoch chi.
- Os oes rheswm da pam na allwch chi gysylltu â ni o fewn **un mis calendr**, efallai y gallwn ni newid y penderfyniad o hyd. Rhowch wybod i ni beth yw'r rheswm pan fyddwch chi'n cysylltu â ni.
- Os gofynnwch chi i ni ail-edrych ar benderfyniad fwy nag **un mis calendr** ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad, ac nad oes gennych chi reswm da am hynny, efallai y gallwn ni newid y penderfyniad o hyd. Ond mae'n debyg mai dim ond o ddyddiad y llythyr anfonoch chi atom ni fydd hyn.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwch chi'n gofyn i ni ail-edrych ar benderfyniad, fe gawn ni aelod arall o'r staff i wirio ei fod yn gywir. Os yw'r penderfyniad yn anghywir, fe wnawn ni ei newid.

### Os gallwn ni newid y penderfyniad

- Os gofynnoch chi i ni ail-edrych ar ein penderfyniad o fewn **un mis calendr**, neu fod gennych chi reswm da dros fethu â gwneud hynny, fe wnawn ni newid y penderfyniad o ddyddiad gwneud y penderfyniad cyntaf.
- Os nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch ofyn i ni ail-edrych arno.
- Os gofynnoch chi i ni ail-edrych ar ein penderfyniad ar ôl **un mis calendr** heb reswm da am hynny, fel arfer, fe wnawn ni newid y penderfyniad o'r dyddiad y gofynnoch chi i ni wneud hynny.
- Fe anfonwn ni lythyr yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad newydd.

### Os na allwn ni newid y penderfyniad

- Os na allwn ni newid y penderfyniad, fe anfonwn ni lythyr yn rhoi gwybod i chi am hyn. Bydd y llythyr yn cadarnhau ein penderfyniad cyntaf.

- Bydd y llythyr yn rhoi gwybod i chi os gallwch chi apelio yn erbyn y penderfyniad cyntaf.
- Os gallwch chi apelio, bydd y terfyn amser o **un mis calendr** yn cychwyn eto o'r dyddiad ar y llythyr sy'n cadarnhau'r penderfyniad.

## Ydych chi eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad?

Gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad os:

- ydym ni wedi esbonio'n penderfyniad neu wedi anfon 'datganiad o'r rhesymau' atoch chi ar bapur i'w esbonio, a'ch bod yn dal i feddwl ei fod yn anghywir; ac
- mae'r llythyr sy'n rhoi gwybod i chi am y penderfyniad yn dweud fod hawl gennych chi i apelio yn ei erbyn.

Os atebwch chi 'oes' neu 'ydw' i'r cwestiynau canlynol, gallwch apelio gan ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon.

- Oes gennych chi hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad?
- Ydych chi'n meddwl bod y penderfyniad yn anghywir?
- Ydych chi eisiau apelio i driwlynlys annibynnol?

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn penderfynu ar ganlyniad eich apêl mewn gwrandawriad triwlynlys. Mae'r triwlynlys yn cynnwys pobl o'r tu allan i'r awdurdod lleol.

- Llenwch y blychau sy'n berthnasol i chi ar y ffurflen. Gallwch geisio cyngor gan ganolfan gyngor neu gyfreithiwr.
- Nodwch pam eich bod eisiau apelio ar y ffurflen. Mae hyn yn bwysig gan nad oes rhaid i driwlynlys edrych ar unrhyw beth nad ydych chi'n ei grybwyll. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r ffurflen.
- Anfonwch y ffurflen yn ôl i'r swyddfa a enwir ar eich llythyr penderfyniad o fewn mis i'r dyddiad ar y llythyr hwnnw.
- Os na allwch chi apelio yn erbyn y penderfyniad, gallwch ofyn i ni ail-edrych arno o hyd. Trowch at '**Ydych chi eisiau i ni ail-edrych ar ein penderfyniad?**' ar dudalen 4.
- Cofiwch, os yw Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn canfod eich bod wedi bod yn cael gormod o arian, bydd eich budd-dal yn cael ei leihau.

## Yr hyn y mae'r tribiwnlys yn edrych arno

- Dim ond ar y dystiolaeth, y gyfraith a'r amgylchiadau adeg gwneud y penderfyniad rydych chi'n apelio yn ei erbyn y gall tribiwnlys edrych.
- All tribiwnlys ddim edrych ar newidiadau yn eich amgylchiadau ddigwyddodd ar ôl i ni wneud y penderfyniad.
- Os yw'ch amgylchiadau wedi newid ac y gallai hyn effeithio'ch budd-dal neu olygu y gallwch hawlio eto, dylech adael i ni wybod ar unwaith. Peidiwch ag aros am y gwrandawriad tribiwnlys.  
Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar eich llythyr penderfyniad.

## Apeliadau hwyr

- Efallai na fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu derbyn eich apêl os yw'n eu cyrraedd ar ôl **un mis calendr** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad.
- Dim ond os oes yna reswm da dros apêl hwyr y gallan nhw ei dderbyn. Gallai hynny fod oherwydd:
  - bod rhywun wedi marw;
  - eich bod chi neu rywun agos atoch yn ddifrifol wael;
  - eich bod wedi bod dramor;
  - bod yna streic bost; neu
  - bod yna amgylchiadau arbennig eraill.
- Dylech esbonio pam na allech chi apelio o fewn **un mis calendr** ar y ffurflen ar gefn y daflen hon.
- Bydd aelod tribiwnlys cyfreithiol gymwys yn edrych ar y rhesymau pam na wnaethoch chi apelio ar amser ac yn penderfynu a allan nhw dderbyn eich apêl ai peidio. Fe fyddan nhw'n edrych ar:
  - p'un ai oes gennych chi reswm da dros apelio'n hwyr ai peidio;
  - faint o amser sydd yna ers i chi gael y penderfyniad;
  - p'un ai fyddai hi'n deg i ni beidio â derbyn eich apêl; a
  - p'un ai yw'ch apêl yn debygol o fod yn llwyddiannus ai peidio.
- All Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddim derbyn apêl hwyr os mai'r unig reswm am hyn yw nad oeddech chi'n deall y gyfraith, neu fod y gyfraith wedi newid ers gwneud y penderfyniad.
- Os byddwch chi'n apelio 13 mis neu fwy ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad, fyddan nhw ddim yn derbyn eich apêl.

## Tribiwnlysoedd apêl

- Mae tribiwnlys yn cynnwys un neu ddau o bobl o'r tu allan i'r awdurdod lleol.
- Bydd aelodau'r tribiwnlys yn arbenigwyr ar bopeth i'w wneud â'ch apêl chi.
- Mae gan bob tribiwnlys aelod â chymwysterau cyfreithiwr i helpu cymhwyso'r gyfraith i'ch apêl chi.
- Gall tribiwnlysoedd hefyd gynnwys rhywun â chymwysterau cyllidol.

## Beth i'w wneud ar ôl i chi apelio

- Ar ôl i chi apelio, byddwn yn esbonio ein penderfyniad i chi os nad ydym ni eisoes wedi gwneud hyn.
- Byddwn yn ail-edrych ar y penderfyniad os nad ydym ni eisoes wedi gwneud hyn.
- Os ydym ni'n cytuno bod y penderfyniad cyntaf yn anghywir ac y bydd y penderfyniad newydd o gymorth i chi, fe anfonwn ni benderfyniad newydd atoch chi a bydd eich apêl yn dod i ben. Os nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch apelio yn ei erbyn.
- Os ydym ni'n cytuno bod y penderfyniad cyntaf yn anghywir ond **nad** yw'r penderfyniad newydd o gymorth i chi, fe anfonwn ni benderfyniad newydd atoch chi. Bydd eich apêl yn parhau yn erbyn y penderfyniad newydd. Bydd gennych chi **un mis calendr** arall i benderfynu a ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad newydd ai peidio.
- Os na fyddwn ni'n newid y penderfyniad, byddwn yn anfon eich apêl at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Byddwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y daethom ni i'r penderfyniad.
- Byddwn yn anfon copïau o'r papurau sy'n ymwneud â'ch apêl atoch chi (a'ch cynrychiolydd os oes gennych chi un).
- Darllenwch y papurau hyn yn ofalus iawn. Os oes yna unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall, gofynnwch i ni, canolfan gyngor neu gyfreithiwr ei esbonio i chi.
- Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon ffurflen atoch chi. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen honno a'i dychwelyd at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o fewn **14 diwrnod** i'r dyddiad yr anfonwyd y ffurflen atoch chi. **Os na wnewch chi hyn, bydd eich apêl yn dod i ben.**
- Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn cwestiynau i chi am sut yr hoffech chi i'r tribiwnlys edrych ar eich apêl. Gallwch ddewis rhwng **gwrandawriad llafar** neu **wrandawriad papur**. Os dewiswch chi wrandawriad llafar, mae'n golygu y byddwch chi yno i ateb unrhyw gwestiynau neu ddelio ag unrhyw broblemau allai godi. Mae pobl sy'n mynd i'w gwrandawriad fel arfer yn gwneud yn well na'r rheiny sydd ddim yno.

## Gwrandawriad llafar

- Dyma wrandawriad apêl y gallwch chi fynd iddo.
- Gall y tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi.

- Gallwch chithau hefyd ofyn cwestiynau.
- Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch cynrychioli.
- Gallwch alw ar dystion i roi tystiolaeth i'r tribiwnlys.
- Gallai un o'n swyddogion ni fod yn y gwrandawriad, ac fe allai ofyn cwestiynau i chi a galw tystion.
- Os byddwch chi'n dewis gwrandawriad llafar, ond na allwch fynd yno, rhaid i chi roi gwybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar unwaith. Rhaid i chi fod â rheswm da dros fethu â bod yno, e.e. salwch. Efallai y gallwch chi drefnu dyddiad arall. Os na rowch chi wybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM na allwch chi fod yno, fe allai'r tribiwnlys gynnal eich gwrandawriad heb i chi fod yno, ac efallai na fydd pethau'n mynd cystal â phe baech chi yno.
- Mae gwrandawriadau llafar fel arfer yn agored i'r cyhoedd, ond bydd y bobl fydd yn y gwrandawriad fel arfer yn rhan o'r apêl. Gallwch ofyn i gael cynnal eich gwrandawriad yn breifat os hoffech chi.

## Gwrandawriadau llafar, parhad

- Os ydych chi'n byw dramor ac eisiau gwrandawriad llafar, rhowch wybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eich bod eisiau mynd i'r gwrandawriad neu anfon rhywun i'ch cynrychioli. Gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM drefnu i'ch gwrandawriad apêl chi:
  - fod mor agos ag sy'n bosib i'r man lle byddwch chi'n cyrraedd Prydain Fawr;
  - fod mor agos ag sy'n bosib i'ch cynrychiolwr, os oes gennych chi un; ac
  - aros nes byddwch chi wedi cyrraedd Prydain Fawr.

### Costau

- Efallai y gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dalu rhai o'ch costau am fynd i'r tribiwnlys, (e.e. eich costau teithio). Os hoffech chi ragor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'r swyddfa Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n delio â'ch apêl.
- Os ydych chi'n byw dramor, bydd rhaid i chi dalu i deithio i Brydain Fawr ac yn ôl. Ond efallai y bydd yn bosib talu rhai o'ch costau tra byddwch chi ym Mhrydain Fawr, yn ystod y gwrandawriad apêl.

## Gwrandawriad papur

- Dyma wrandawriad apêl nad ydych chi'n mynd iddo fo. Fyddwch chi ddim yn gallu ateb unrhyw gwestiynau na delio â phroblemau allai godi.
- Caiff yr apêl ei glywed a bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon y penderfyniad atoch chi.
- Os bydd y tribiwnlys yn meddwl bod angen i chi fynd i wrandawriad llafar, fe allan nhw eich gwrthod pan ofynnwch chi am wrandawriad papur.



Os byddwch chi'n dewis gwrandawriad papur ond yna'n newid eich meddwl, gallwch ddewis cael gwrandawriad llafar. Ysgrifennwch at Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM ar unwaith yn Tŷ Eastgate, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0YP.

## Y canlyniad

Yma, rydym ni'n esbonio i chi beth fydd yn digwydd ar ôl y gwrandawriad llafar neu bapur.

- Fe gewch chi hysbysiad o benderfyniad sy'n egluro penderfyniad y triwlynlys cyn gynted ag sy'n bosib. Fe gawn ninnau gopi hefyd.
- Gallwch ofyn hefyd am 'ddatganiad o'r rhesymau'. Bydd hwn yn esbonio sut y daeth y triwlynlys i'w penderfyniad. Rhaid i chi ofyn am y 'datganiad o'r rhesymau' o fewn **un mis calendr** i ddyddiad cael yr hysbysiad o benderfyniad. Rhaid i chi gael copi o'r 'datganiad o'r rhesymau' os ydych chi eisiau apelio i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol. **Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniad y triwlynlys, trowch at dudalen 9 y daflen hon.**
- Os hoffech chi gael cofnod o'r gwrandawriad apêl, fe allwch chi gael copi hyd at chwe mis ar ôl y gwrandawriad.
- Os bu'ch apêl yn llwyddiannus, byddwn fel arfer yn cywiro'r penderfyniad cyn gynted ag y cawn ein copi ni o benderfyniad y triwlynlys. Efallai na fyddwn ni'n ei gywiro ar unwaith os byddwn yn apelio i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol.

## Beth i'w wneud os nad ydych chi'n cytuno â phenderfyniad y triwlynlys

### Apeliadau i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol

- Os nad ydych chi'n cytuno â phenderfyniad y triwlynlys apêl, efallai y gallech chi apelio i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol.
- Mae'r comisiynwyr wedi bod yn fargyfreithwyr, yn gyfreithwyr neu'n eiriolwyr (pobl sy'n cael eu dewis i weithredu ar ran rhywun arall) ers o leiaf 10 mlynedd. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau na'r awdurdod lleol.

## Pwy all apelio i'r comisiynwyr?

- Gall y canlynol apelio i'r comisiynwyr:
  - Unrhyw un sydd eisoes wedi apelio i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM
  - Yr awdurdod lleol
  - Yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Am beth y gallwch chi apelio i'r comisiynwyr?

Dim ond os credwch chi fod y triwlynlys wedi defnyddio'r gyfraith yn anghywir yn eich achos chi y cewch chi apelio i'r comisiynwyr. Chewch chi ddim apelio i'r comisiynwyr am:

- ffeithiau; na
- chanfyddiadau neu benderfyniad y triwlynlys.

## Sut i apelio

- Bydd eich llythyr penderfyniad gan Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn dweud wrthyhych chi beth i'w wneud os nad ydych chi'n fodlon â'r penderfyniad. Darllenwch hwn yn ofalus. Mae'n dweud wrthyhych chi am y terfynau amser pwysig ar gyfer eich apêl.
- Allwch chi ddim apelio nes cewch chi'r 'datganiad o'r rhesymau' am benderfyniad y triwlynlys. Trowch ar '**Y canlyniad**' ar dudalen 8.
- Dylech ddarllen y 'datganiad o'r rhesymau' yn ofalus. Os nad ydych chi'n meddwl bod y triwlynlys wedi defnyddio'r gyfraith yn gywir yn eich achos chi, gallwch wneud cais i apelio i'r comisiynwyr. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **un mis calendr** i'r dyddiad yr anfonodd y triwlynlys y 'datganiad o'r rhesymau' atoch chi.
  - Os byddwch chi'n apelio i'r comisiynwyr, rhaid i chi anfon y 'datganiad o'r rhesymau' gyda'ch cais. Os na wnewch chi hyn, efallai na wnân nhw edrych ar eich cais.
  - Bydd aelod triwlynlys sy'n gyfreithiol gymwys yn penderfynu a gewch chi anfon eich apêl at y comisiynwyr neu a ddylai triwlynlys gwahanol ail-edrych ar yr apêl.
  - Gallwch ofyn i ganolfan gyngor, cyfreithiwr neu berson neu sefydliad addas arall eich helpu gyda'ch cais.

## Ceisiadau hwyr

- Os byddwch chi'n gwneud cais hwyr am 'ddatganiad o'r rhesymau' neu i apelio i'r comisiynwyr, wnaiff y triwlynlys na'r comisiynydd ddim derbyn eich cais os nad oes gennych chi reswm da dros ei gyflwyno'n hwyr.
- Bydd angen i chi esbonio pam ei fod yn hwyr.

## Sefydliadau eraill all eich helpu

### Canolfannau cyngor

Gall canolfannau cyngor fel Canolfannau Cyngor ar Bopeth a chanolfannau'r gyfraith eich cynrychioli a'ch helpu i ddeall pam ein bod wedi gwneud penderfyniad am eich Budd-dal Tai. Gallant hefyd eich helpu i lenwi ffurflenni neu ysgrifennu llythyrau. Fe ddôn nhw gyda chi i'r triwlynlys sy'n gwrando ar eich apêl weithiau.

Bydd o gymorth i'r ganolfan gyngor os dangoswch chi unrhyw lythyrau sydd gennych chi am y penderfyniad rydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir. Gallai Undebau Llafur hefyd roi cyngor i chi am ddim a siarad ar eich rhan yn y triwlynlys sy'n gwrando ar eich apêl.

Efallai y gall ein Swyddfa Hawliau Lles hefyd fod o gymorth.

Mae cyfeiriadau'r sefydliadau hyn i'w gweld yn adran fusnes y Llyfr Ffôn, yr Yellow Pages neu mewn llyfrgell.

## Cyfreithwyr

Efallai y gallwch chi gael cyngor gan gyfreithiwr dan y Cynllun Cymorth a Chyngor Cyfreithiol. Gallwch ddysgu mwy am hyn drwy siarad â chyfreithiwr. Ond os penderfynwch chi ddefnyddio cyfreithiwr yn eich gwrandawriad, bydd rhaid i chi dalu iddyn nhw eich helpu. Chewch chi ddim arian am bethau fel costau cyfreithiwr gennym ni na chan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfreithwyr a chanolfannau cyngor allai eich helpu chi, cysylltwch â'r Bwrdd Cymorth Cyfreithiol gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Y Bwrdd Cymorth Cyfreithiol  
Franchise Development Group  
85 Grays Inn Road  
Llundain  
WC1X 8TX  
Rhadffôn y DU: **0500 282 3000**

## Os ydych chi'n byw dramor

Os ydych chi'n byw dramor, gallwch ofyn i rywun ym Mhrydain Fawr weithredu ar eich rhan. Efallai y gall y Cynllun Cymorth a Chyngor Cyfreithiol eu helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr i'ch helpu chi, ond wnân nhw ddim yn talu am gyfreithiwr i'ch helpu chi yn y gwrandawriad.



County Borough Council  
Bodlondeb, Conwy LL32 8DU  
Budd-dal Tai  
FFôn: 01492 576491  
Ffacs: 01492 576260

## At ddefnydd ein swyddfa'n unig

Dyddiad daeth y ffurflen i law	Dyddiad ei chyhoeddi
	Rheswm

Llenwch y ffurflen hon os ydych chi eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad am eich Budd-Dal Tai neu ordaliad Budd-Dal Tai.

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd i ni.

## Eich manylion chi

Teitl:

Mr/Mrs/Miss/Ms

Eich cyfenw:

Eich holl enwau eraill:

Eich dyddiad geni:

 /  / 

Does dim rhaid i chi lenwi hwn os ydych chi'n landlord sy'n apelio yn erbyn gordaliad Budd-dal Tai

Eich rhif Yswiriant Gwladol (YG):

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Mae hwn i'w weld ar eich cerdyn rhif YG, eich slipiau cyflog, eich papurau treth neu unrhyw lythrau sydd gennych chi

Does dim rhaid i chi lenwi eich Rhif YG os ydych chi'n landlord sy'n apelio yn erbyn gordaliad Budd-Dal Tai.

Eich cyfeiriad, gan gynnwys y cod post:

Eich rhif ffôn yn ystod y dydd (gan gynnwys y cod ardal):

Ydych chi wedi trefnu i rywun eich helpu chi gyda'ch apêl?

Naddo

Do

Os ydych, rhowch eu henw llawn yma:

Eu cyfeiriad, gan gynnwys y cod post:


Llofnodwch y blwch hwn er mwyn i'r person hwn allu gweithredu ar eich rhan:

## Y penderfyniad

Rhowch y dyddiad sydd ar frig y llythyr sy'n nodi'r penderfyniad yn y blwch hwn:

## Eich apêl

- Defnyddiwch y lle gwag ar dudalen nesaf y ffurflen hon i ddweud pam nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad.
- Rhaid i chi ddweud **pam** eich bod y meddwl bod y penderfyniad yn anghywir. Rhaid i chi ddweud mwy na 'Dydw i ddim yn cytuno â'r penderfyniad' neu 'dydi hynny ddim yn ddigon o arian'.
- Dylai'r rhesymau a rowch chi fod yn debyg i'r esiamplau hyn:
  - 'rydw i'n talu £75 yr wythnos o rent ond fe ddywedoch chi mai £35 yr wythnos roeddwn i'n ei dalu';
  - 'Fe wnes i symud i'r eiddo ar 1 Tachwedd, nid 1 Rhagfyr';
  - 'Rydych chi wedi defnyddio'r cyflog anghywir i gyfrifo fy mudd-dal. Dim ond £250 gefais i yn ystod wythnos y Nadolig'; neu
  - os ydych chi'n landlord, 'dechreuodd fy nhenant weithio heb ddweud wrtha' i'.
- Os ydych chi'n apelio yn erbyn mwy nag un penderfyniad, rhaid i chi ddweud pam nad ydych chi'n cytuno â phob un.
- Os ydych chi'n apelio fwy nag un mis calendr ar ôl i ni wneud penderfyniad, rhaid i chi esbonio pam fod eich apêl yn hwyr.

## Eich apêl

- Defnyddiwch y lle gwag hwn i ddweud pam nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad.
- Rhaid i chi ddweud pam eich bod yn credu fod y penderfyniad yn anghywir.  
Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU.

Eich apêl, parhad

## Eich apêl, parhad

## Eich Llofnod

Eich Llofnod:

Dyddiad:

Os oes rhywun am fod yn gweithredu'n swyddogol ar eich rhan, mae angen iddyn nhw lofnodi yma.

Eu llofnod:

### Beth i'w wneud nesaf

- **Gwenwch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen hon ac wedi'i llofnodi.**
- Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen atom ni i'r cyfeiriad isod.

Swyddfa Budd-daliadau Tai  
Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau  
Bodlondeb  
Conwy  
LL32 8DU

- Cofiwch, rhaid i'ch apêl gyrraedd y Swyddfa budd-daliadau o fewn **un mis calendr** i'r dyddiad ar frig y llythyr penderfyniad.



## Swyddfeydd Budd-daliadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Prif swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chyfeiriad post

Swyddfa Budd-daliadau  
Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau  
Bodlondeb, Conwy  
LL32 8DU  
Llun i Iau 8.45am-5.15pm  
Gwener 8.45am-4.45pm  
Ffôn: 01492 576491

### Is-swyddfeydd Budd-daliadau Tai Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Swyddfa Ardal Y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Neuadd y Dref, George Street, Llandudno LL30 2ST Llun i Iau 8.45am - 5:15pm Gwener 8.45am - 4.45pm Ffôn: 01492 576491	Swyddfa Ardal Y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Llawr Cyntaf, Llyfrgell Bae Colwyn Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn LL29 7DH Llun, Mercher, Iau 9.00am – 5.15pm Mawrth 10.00am – 5.15pm Gwener 9.00am – 4.45pm Ffôn: 01492 576491	Swyddfa Ardal Y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Y Llyfrgell Plas yn Dre Llanrwst LL26 0DF Mawrth 10am – 1pm Ffôn: 01492 576491
--	---	---

## Cyfeiriadau defnyddiol

### Adrannau eraill y Llywodraeth

Y Gwasanaeth Pensiwn Blwch Post 8 Abertawe SA80 8AH  Rhif Ffôn: 0845 6060265  Y Ganolfan Waith 2 Parc y Tywysog Rhodfa'r Tywysog Bae Colwyn LL29 8PL Ffôn 0845 6043719 0345 6043719	Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2 Blwch Post 2239 Caer CH99 1WZ  Rhif Ffôn: 0845 6088545 0345 6088545  Gwasanaeth y Swyddog Rhenti Llywodraeth Cynulliad Cymru Sarn Mynach Cyffordd Llandudno LL31 9R2 Ffôn: 0300 0625106	Y Ganolfan Waith 29/31 Chapel Street Llandudno Conwy LL30 2SY  Rhif Ffôn: 0845 6043719 0345 6043719  Cronfa Cymorth Dewisol Cymru Blwch Post 2377 Wreccsam LL11 0LG Ffôn: 0800 859 5924
--	--	--

## Sefydliadau Eraill

Shelter Cymru 19 Stryd Bedford Y Rhyl LL18 1SY Rhif Ffôn: 01745 361444	Mae Shelter Cymru yn darparu cyngor a gwasanaethau cyfrinachol ac annibynnol am ddim i bobl mewn angen tai er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau tai a materion cysylltiedig.	
Cyngor ar Bopeth Swyddfa Ranbarthol, Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno LL30 2TX Rhif Ffôn: 0844 4772020	Gwasanaeth Cyngor Gwledig The Bon Stryd y Bont Llanrwst LL26 0ET  Ffôn: 01492 641313	Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannolac fel arall drwy ddarparu cyngor diduedd, annibynnol a chyfrinachol am ddim.
Undeb Credyd Gogledd Cymru 168 Ffordd Conwy Cyffordd Llandudno Conwy LL31 9DU  Ffôn: 0333 2000 601	Mae ymaelodi ag Undeb Credyd Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i drigolion Sir Conwy fanteisio ar wasanaethau ariannol rhesymol a moesegol, gan gynnwys cyfrifon cyfredol, cyfrifon cynilo a benthyciadau llog isel.	
Age Concern 12-14 Sgwâr y Neuadd Dinbych LL16 3NV Ffôn: 01745 816947	Mae Age Concern yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r henoed ynglŷn â budd-daliadau, gwahaniaethu ar sail oedran a hyfforddiant.	